# MENTRO

## Rhagfyr 2016 – Chwefror 2017

mentro venture
CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES

FARMING connect cyswllt FFERMIO

Mae Mentro yn fenter sydd wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w cynorthwyo i gyflawni eu nod.

**Cam 1**
**Trosglwyddo Gwybodaeth Greiddiol**

- Gwefan
- Rhwydwaith Arddangos
- Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol
- Grwpiau Trafod
- Erthyglau
- Agrisgôp
- Academi Amaeth

**Cam 2**
**Cefnogaeth wedi'i Deilwra**

- Cymorthfeydd un-i-un
- Mentora
- Paru
- Hyfforddiant
- Gweithdai

**Cam 3**
**Sefydlu Menter ar y Cyd**

- Mentora (parhad)
- Gwasanaeth Cynghori (Hyd at €3000 ar gael i bob partneriaeth er mwyn llunio cynllun busnes ac arweiniad cyfreithiol i drafod strwythur arfaethedig y busnes)
- Arweiniad Cyfreithiol

Er ei lansio, mae **141 unigolyn** wedi mynegi diddordeb yn yr ymgyrch Mentro.

Ar hyn o bryd, mae **123 o gyfranogwyr gweithredol.**

**Mae 74 yn newydd ddyfodiaid** sy'n chwilio am gyfle, ac **mae 49 yn ffermwyr sydd eisoes wedi sefydlu** neu dirfeddianwyr yn darparu cyfle.


---

**Sgôr RAG**

**Coch: Dan y targed** **Oren: Bron â chyrraedd y targed** **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn**


| **Gwyrdd** | Prosiect a digwyddiadau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed |
|---|---|

### Cymhareb Ceiswyr a Darparwyr





## Mae 25 pâr wedi cael eu gwneud


Mae 38% o'r cyfranogwyr wedi canfod partner busnes




### Statws




Eu cam nesaf fydd i ymgeisio ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio sy'n darparu gwerth €3000 o gyngor wedi'i ariannu'n llawn er mwyn cytuno ar strwythur busnes a llunio cynllun ar gyfer eu menter newydd.




Mae **10 partneriaeth** wedi cael mynediad at y gwasanaeth cynghori ac mae **2 fenter ar y cyd newydd** wedi cael eu sefydlu.

## Astudiaeth Achos

Y fenter ar y cyd cyntaf i gael ei sefydlu fel rhan o raglen Mentro Cyswllt Ffermio oedd menter ddefaid yng Ngogledd Cymru. Mae'r tirfeddiannwr yn berchen ar ardal sylweddol o dir yn yr ardal ac roedd yn awyddus i sefydlu menter ar y cyd yn ymwneud â newydd ddyfodiaid. Gyda chefnogaeth Cyswllt Ffermio, aethant ati i ganfod ymgynghorydd busnes a chyfreithiwr er mwyn datblygu system a fyddai'n gallu bod o fudd i bob parti. Mae tri unigolyn yn ymwneud â'r fenter, ac mae rheolwr y fferm yn derbyn cyfran o 45% yn y busnes, gyda chyfran o 5% i fugail ifanc. Mae perchennog y tir yn cadw cyfran o 50% yn y busnes. Mae'r partïon wedi sefydlu Cwmni Menter ar y Cyd Cyfyngedig fel strwythur busnes ar gyfer y fenter newydd. Bydd y ddiadell o 2400 yn wyna o'r 1af o Ebrill 2017. Os bydd y fenter yn llwyddo, nod busnes tymor hir y tirfeddiannwr yw dyblygu'r fenter ar ddarnau eraill o dir, gan gynnig cyfleoedd pellach ar gyfer y genhedlaeth nesaf.


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government


www.llyw.cymru/cyswlltffermio